YDY'R GWIRIONEDD YN EFFEITHIO AR EICH BYWYD CHI?

Nodyn i'r siaradwr:
Gwnewch yn siŵr bod eich anerchiad yn cael ei ddeall gan y rhai fydd yn y cyfarfod am y tro cyntaf. Eglurwch fod ein bywyd yn well wrth inni roi egwyddorion Beiblaidd ar waith, hyd yn oed yn y drefn bresennol

ADNABOD Y GWIRIONEDD (5 mun.)

Ychydig cyn iddo farw, dywedodd Iesu wrth Pontius Pilat mai 'tystiolaethu i'r gwirionedd' oedd ei bwrpas dros ddod i'r ddaear [Darllenwch Ioan 18:37]

Doedd gan Pilat ddim diddordeb mewn gwrando ar Iesu'n trafod gwirionedd y Deyrnas (In 18:38; *w07*-E 10/1 32)

Yn wahanol i Pilat, siaradodd Iesu am *"y* gwirionedd." Nid gwirionedd yn gyffredinol oedd hyn, ond gwirionedd dwyfol, sef y gwirionedd am Jehofah Dduw a'i bwrpas [Darllenwch Ioan 17:17] (*w02*-E 3/1 13)

Cafodd gwirionedd dwyfol ei ysgrifennu yng Ngair Duw, yr Ysgrythurau Sanctaidd (2Ti 3:16, 17)

Mae gwybodaeth gywir am yr Ysgrythurau yn ein helpu ni i adnabod y gwirionedd, ac yn ein rhyddhau ni o gaethiwed (In 17:3) [Darllenwch Ioan 8:31, 32]

Yn Ioan 8:32, roedd Iesu yn sôn yn bennaf am ryddid oddi wrth bechod (Rhu 8:1, 2)

Mae'r gwirionedd yn ein rhyddhau ni oddi wrth ganlyniadau penodol pechod hefyd

MAE'R GWIRIONEDD YN RHYDDHAU CREDINWYR O GAETHIWED (20 mun.)

Dros y canrifoedd, mae miliynau wedi cael eu gwerthu fel caethweision heb unrhyw obaith o gael eu rhyddhau (*g02*-E 6/22 4-6)

Heddiw, mae pobl yn dioddef gwahanol fathau o gaethiwed, ond fel unigolion gallwn *ddewis* i wasanaethu Duw [Darllenwch Deuteronomium 30:19] (*w10*-E 1/15 11)

Nodwch rai o'r ffyrdd gall y gwirionedd effeithio ar fywyd rhywun

[Dylai'r siaradwr ddewis esiamplau sy'n berthnasol i anghenion yr ardal lle fydd yr anerchiad yn cael ei roi]

Mae byw yn ôl y gwirionedd yn ein rhyddhau ni oddi wrth ofn ac anobaith dros gyflwr y byd ar hyn o bryd

Mae proffwydoliaethau yn y Beibl yn dangos y bydd y ddaear yn cael ei lanhau o ddrygioni ac yna bydd y ddaear yn lle heddychlon (Sal 37:10, 11; 2Ti 3:1)

Mae gwybodaeth am y gwirionedd yn dod â rhyddhad oddi wrth ddysgeidiaethau gau Gristnogol, er enghraifft ynglŷn â chyflwr y meirw

Mae miliynau yn ofni'r meirw ac yn troi at arweinwyr crefyddol neu bobl sy'n ceisio cael help gan y cythreuliaid fel dynion hysbys a chyfryngwyr ysbrydion (*g96*-E 8/8 19)

Y gwir yw, dydy'r meirw ddim yn gallu achosi niwed inni; nid ydyn nhw chwaith yn dioddef poen parhaol (Pre 9:5, 6)

Mae alcohol, tybaco, a chyffuriau caled yn caethiwo miliynau

Mae nerth y gwirionedd ynghyd â'r awydd am berthynas dda gyda Duw yn gallu rhyddhau rhywun o'r fath bethau drwg (2Co 7:1; *g02*-E 6/22 7-8)

Mae'r gwirionedd wedi achosi newidiadau mawr ym mhobl a oedd gan dymer ddrwg, yn gas, ac yn gwneud pethau annuwiol eraill (Eff 4:31, 32; 5:25, 33)

Gyda dymuniad i gerdded gyda Duw, maen nhw wedi dysgu i garu caredigrwydd ac i ddangos rhinweddau duwiol (Mich 6:8)

Yn y dyfodol, bydd pob gwir addolwr ar y ddaear yn cael ei 'ryddhau o gaethiwed a llygredigaeth, a'i ddwyn i ryddid a gogoniant plant Duw' (Rhu 8:20, 21; *w99*-E 5/1 6)

Bydd hyn yn golygu rhyddhad o bopeth sydd wedi achosi gymaint o boen a phryder i'r teulu dynol (In 8:36; Rhu 6:22, 23)

DEWISWCH Y GWIRIONEDD A MWYNHEWCH WIR RYDDID (5 mun.)

Mor bleserus yw gwasanaethu Jehofah Dduw gyda'r gobaith o fyw mewn byd newydd llawn heddwch a chyfiawnder! (2Pe 3:13)

Er mwyn byw ym myd newydd Duw, mae'n rhaid inni ddewis a derbyn gwirionedd dwyfol, a gwisgo'r bersonoliaeth newydd (Eff 4:20-24; 1The 2:13)

Dydy Jehofah byth yn gofyn inni wneud rhywbeth sydd y tu hwnt i'n gallu

Bydd ein hymdrechion i fyw yn unol â'r gwirionedd yn ein hamddiffyn ni yn ysbrydol ac yn dod â chymeradwyaeth gan Jehofah (Sal 5:11, 12; 3In 3, 4)

Wrth iddo sefyll o flaen Pilat, dywedodd Iesu fod pawb sy'n sefyll ar ochr y gwirionedd yn gwrando ar ei lais Ef (In 18:37b)

Gadewch i ni gymryd ein safiad yn ddi-ofn ar ochr y gwirionedd—gwirionedd dwyfol—ac ufuddhau i Jehofah gan wrando yn ofalus ar lais Iesu (Lc 9:35)

(Cadwch yn agos at ddeunydd yr amlinelliad, a chadwch at yr amser ar gyfer pob rhan. Does dim rhaid darllen na thrafod pob testun. Gwelwch y llyfr *Ministry School,* tt. 52-54, 166-169.)

© 2013 Watch Tower Bible and Tract Society of Pennsylvania